



RHOI LLAIS I BOB PLENTYN

NEWID AR WAITH

2025 | 2026

www.tgpcymru.org.uk



CROESO

Yn TGP Cymru, mae popeth yr ydym yn ei wneud yn dechrau gyda chred syml: mae gan blant, pobl ifanc, teuluoedd a chymunedau yr hawl i gael eu clywed, eu deall a'u cynorthwyo.

Ffurfiwyd TGP Cymru ar ôl i Gymdeithas y Plant dynnu'n ôl o Gymru yn 2002, felly mae wedi bwrw ymlaen â gwaddol ei gwaith ac wedi tyfu i fod yn elusen Gymreig annibynnol, unigryw, wedi'i gwreiddio mewn gwybodaeth leol, wedi'i llywio gan brofiad bywyd, ac yn gweithredu o fewn tirwedd gofal cymdeithasol, addysg a gwasanaethau cyhoeddus datganoledig Cymru i ddiwallu anghenion esblygol plant, pobl ifanc a theuluoedd ledled Cymru sy'n newid.

Yn ystod 2025-26, fe wnaethom barhau i ddarparu a thyfu gwasanaethau hanfodol ledled Cymru mewn amgylchedd ariannu gynyddol heriol. Fe wnaethom weithio ochr yn ochr â phlant a phobl ifanc mewn gofal, teuluoedd yn llywio systemau cymhleth, cymunedau a oedd yn wynebu cael eu hallgau, ac unigolion a oedd yn dioddef rhwystrau sylweddol i gymorth.

Eleni, rydym nid yn unig wedi cynnal ein cyrhaeddiad ond wedi ei gryfhau-gan addasu gwasanaethau, ymateb i anghenion sy'n dod i'r amlwg a gwranddo'n ofalus ar brofiad bywyd i lunio'r hyn yr ydym yn ei wneud nesaf. Ochr yn ochr â darpariaeth uniongyrchol, rydym wedi parhau i ddylanwadu ar bolisi, i ddatblygu partneriaethau ac i hyrwyddo pwysigrwydd eiriolaeth ac ymyrraeth gynnar ledled Cymru.



CIPOLWG AR EIN CYFRANIAD

2,066

o faterion eiriolaeth ledled Cymru wedi'u cefnogi



526

o blant a phobl ifanc wedi cael cynnig cymorth eiriolaeth drwy'r Cynnig Gweithredol



288

o faterion eiriolaeth rhieni ledled Cymru wedi'u cefnogi



Darparwyd eiriolaethmewn 31 o gartrefi preswyl ac ysgolion



455

o sesiynau unigol yn cynorthwyo pobl ifanc mewn perygl o fod yn ddigartref



413

o sesiynau llesiant wedi'u darparu



440

o atgyfeiriadau a 263 o gleientiaid newydd wedi cael cymorth drwy Teithio Ymlaen



42

o bobl ifanc wedi'u cefnogi drwy Lleisiau Ifanc, ac aethpwyd i'r afael â 122 o broblemau



30

o Basbortau Cyfathrebu wedi'u cwblhau a 5 wrthi'n cael eu datblygu



429

o atgyfeiriadau i bobl ifanc sy'n ceisio lloches a 555 o bobl ifanc wedi mynychu Grŵp Ieuencid



64

o Gyfarfodydd Grŵp Teuluol, 33 o adolygiadau a 461 o gyfarfodydd adferol wedi'u cynnal



44

o deuluoedd wedi cael cymorth drwy'r Gwasanaeth Cyn-filwyr a Theuluoedd, â 37 o atgyfeiriadau newydd



EIRIOLAETH:

Sicrhau Bod Pob Llais yn Cael Ei Glywed

Mae eiriolaeth yn gwbl ganolog i waith TGP Cymru. Ledled Cymru, cynorthwyodd ein gwasanaethau 2,066 o faterion a oedd yn effeithio ar blant a phobl ifanc, gan gynnwys gofal, addysg, llesiant a pherthynas a gweithwyr proffesiynol.

Fe wnaethom sicrhau bod 526 o blant wedi derbyn y Cynnig Gweithredol o eiriolaeth-sy'n golygu eu bod wedi cael eu hysbysu am eu hawliau ac yn gallu cael gafael ar gymorth pan fo'i angen.

Drwy'r gwaith hwn, roedd plant a phobl ifanc yn gallu mynegi eu safbwyntiau yn well, dylanwadu ar benderfyniadau a chymryd rhan ystyrlon mewn cyfarfodydd am eu bywydau. Mae adborth yn dangos yn gyson bod pobl ifanc yn teimlo'n fwy hyderus, wedi'u cynnwys mwy ac mewn mwy o reolaeth o ganlyniad i gymorth eiriolaeth.

Fe wnaeth ein gwasanaeth Eiriolaeth Ymweld Preswyl gryfhau hyn ymhellach trwy ddarparu cymorth cyson ac annibynnol ar draws 31 o gartrefi preswyl ac ysgolion. Sicraodd ymweliadau rheolaidd bod gan blant mewn gofal rywun y gallent ymddiried ynddo—gan helpu pryderon i gael eu codi'n gynharach a'u datrys yn fwy effeithiol.

"Mae fy eiriolwr yn gallu cyflawni pethau heb unrhyw ffwdan ac yn gyflymach ac yn well na mynd drwy'r gwasanaethau cymdeithasol."

"roedd yn rhywun yn gwrando arnaf i yn hytrach na'r oedolion".



EIRIOLAETH RHINI:

Cryfhau Lleisiau Teuluoedd

Eleni, fe wnaeth Eiriolaeth Rhieni gynorthwyo rhieni mewn 288 o gyfarfodydd cysylltiedig ag amddiffyn plant ledled Cymru, gan eu helpu i lywio prosesau amddiffyn plant â mwy o hyder a dealltwriaeth.

Cynorthwywyd rhieni i baratoi ar gyfer cyfarfodydd, i gyfathrebu eu safbwyntiau yn eglur ac i ymgysylltu'n ystyrlon a gweithwyr proffesiynol—yn aml yn ystod rhai o'r cyfnodau anoddaf yn eu bywydau.

O ganlyniad, dywedodd rhieni eu bod yn teimlo bod ganddynt fwy o wybodaeth, eu bod wedi'u hynysu llai a'u bod yn gallu eirioli mwy dros eu plant. Mae hyn wedi arwain at berthynas well â gweithwyr proffesiynol, prosesau gwneud penderfyniadau mwy cytbwys ac, mewn rhai ardaloedd, gostyngiad i nifer y plant sy'n mynd i ofal.

Mae'r gwasanaeth hefyd wedi cyfrannu at newid ehangach, gan gynnwys datblygu grwpiau profiad bywyd a nodi meysydd allweddol ar gyfer gwelliant systemig.

"Rwy'n gwybod nad wyf i'n berson hawdd i ddelio ag ef... ond mae wedi bod mor ddefnyddiol bod â rhywun yn fy nghornel pan rwyf i wedi teimlo mor unig a diymadferth".

"Fe wnaethoch chi wir fy helpu i gael y gweithwyr proffesiynol i fod yn eglur ynghylch beth yn union sydd ei angen i fy nghael i a fy rheulu o A i B"



LLEISIAU IFANC:

Cyrraedd y Rhai sy'n Syrthio Drwy'r Bylchau

Lleisiau Ifanc fu un o'n gwasanaethau mwyaf arloesol eleni. Fe'i bwriadwyd ar gyfer pobl ifanc sy'n dioddef anawsterau meddyliol ac emosiynol nad ydynt yn cael eu cynorthwyo gan wasanaethau statudol ac mae'n ymateb i fwllch eglur yn y ddarpariaeth.

Yn 2025–26, cynorthwyodd y gwasanaeth 42 o bobl ifanc a gweithiodd ar 122 o faterion a oedd yn effeithio ar eu bywydau.

I lawer, dyma'r tro cyntaf iddynt gael mynediad at gymorth annibynnol. Dywedodd pobl ifanc eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu clywed, eu bod wedi'u dilysu a'u bod yn gallu deall a mynegi eu profiadau mwy. Mae'r gwasanaeth wedi dangos pwysigrwydd dulliau ymyrraeth gynnar hyblyg sy'n darganfod pobl ifanc lle maen nhw.

"Maen nhw'n eich helpu chi i oresgyn eich problemau a'ch cynorthwyo ar bob cam o'r daith."

"Rwy'n ysgrifennu i fynegi fy nghefnogaeth gryfaf i raglen Lleisiau Ifanc TGP Cymru, yn seiliedig ar yr effaith gadarnhaol sylweddol yr ydym ni wedi ei gweld yn ein cymuned ysgol."

Ers ffurfio partneriaeth gyda'r rhaglen, rydym ni wedi gweld gwelliant pendant i lesiant a hyder y disgyblion sydd wedi cymryd rhan. Mae gallu'r eiriolwr i ddatblygu perthynas a chreu amgylchedd diogel ac anfeirniadol wedi bod yn drawsnewidiol."

PASBORTAU CYFATHREBU:


Gwneud Cyfathrebu yn Bosibl

Mae ein gwasanaeth Pasbortau Cyfathrebu yn cynorthwyo plant a phobl ifanc ag anghenion cyfathrebu ychwanegol i fynegi eu hunain a chael eu deall.

Eleni, cwblhawyd 30 o basbortau ac roedd 5 arall wrthi'n cael eu datblygu.

Mae'r pasbortau hyn yn helpu gweithwyr proffesiynol ar draws meysydd addysg, iechyd a gofal i ddeall yn well sut mae plentyn yn cyfathrebu, gan arwain at gymorth mwy cynhwysol ac ymatebol. O ganlyniad, mae plant yn dioddef llai o rwystredigaeth, yn ymgysylltu'n well ac yn derbyn gofal sydd wedi'i bersonoli mwy.

"Does dim rhaid i mi boeni mwyach na fydd pobl yn deall anghenion neu gyfathrebiad fy mab".



TEULUOEDD A PHERTHNASOEDD:

Creu Newid Cynaliadwy

Fe wnaeth ein dulliau adferol a'n gwasanaeth Cyfarfodydd Grwpiau Teuluol gynorthwyo teuluoedd i ddod o hyd i'w hatebion eu hunain a chryfhau perthnasoedd.

Drwy'r flwyddyn gyfan, fe wnaethom ddarparu 64 o Gyfarfodydd Grwpiau Teuluol, 33 o adolygiadau a 461 o gyfarfodydd adferol.

Cynorthwywyd teuluoedd i leihau gwrthdaro, i wella cyfathrebiad ac i fanteisio ar rwydweithiau cymorth ehangach. Mae'r dull hwn yn arwain at

ganlyniadau mwy cynaliadwy a arweinir gan y teulu, gan leihau'r angen am ymyrraeth statudol a chryfhau sefydlogrwydd hirdymor.

"Rwy'n argymhell hwn i bobl eraill, 100%, doeddwn i ddim yn meddwl y byddem ni byth yn gallu cytuno... fe wnaethom ni gerdded i ffwrdd â chynllun gwydych"

"Ni fyddem ni lle'r ydym ni nawr heb hyn... byddai wedi mynd i'r llys yn y pen draw."

CYN-FILWYR A THEULUOEDD

Yn ystod 2025–26, fe wnaethom barhau i ddatblygu ein Gwasanaeth Cyn-filwyr a Theuluoedd Dulliau Adferol, gan gynorthwyo 44 o deuluoedd a derbyn 37 o atgyfeiriadau newydd.

Ar gyfartaledd, cynorthwywyd 106 o aelodau teuluoedd bob chwarter, gan gynnwys cyn-filwyr a'u teuluoedd ehangach.

Mae'r gwasanaeth yn canolbwyntio ar gryfhau perthnasoedd, lleihau pwysau a helpu teuluoedd i ddod o hyd i ffyrdd ymarferol ymlaen gyda'i gilydd. Mae'n adlewyrchu ein hymrwymiad i ymestyn cymorth adferol, seiliedig ar berthnasoedd i gymunedau ag anghenion penodol sy'n aml heb eu diwallu.

"Bydd fy iechyd meddwl gen i am byth nawr ac mae sgwrsio â rhywun sy'n gwybod am y ffordd rwy'n teimlo yn helpu"

"Wedi rhoi cyfeiriad i mi mewn bywyd."



TEITHIO YMLAEN:

Cynorthwyo Cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr

Drwy ein gwasanaeth Teithio Ymlaen, fe wnaethom barhau i ddarparu eiriolaeth, cyngor a chymorth ymarferol i gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr ledled Cymru.

Yn 2025-26, cynorthwyodd y gwasanaeth 330 o atgyfeiriadau newydd a 138 o gleientiaid newydd, ochr yn ochr â sesiynau galw heibio wythnosol cyson a fynychwyd gan rhwng 10 ac 20 o bobl. Mae'r lefel barhaus hon o ymgysylltiad yn adlewyrchu maint yr angen a'r ymddiriedaeth a ddatblygwyd o fewn cymunedau.

Mae'r gwasanaeth yn cynorthwyo unigolion a theuluoedd i lywio rhwystrau sylweddol mewn

meysydd fel tai, addysg, iechyd a gwahaniaethu. Mae hefyd yn chwarae rhan bwysig o ran eirioli dros hawliau, herio anghydraddoldeb a sicrhau bod profiad bywyd yn hysbysu polisi ac arferion ehangach.

Ochr yn ochr â chymorth i unigolion, mae Teithio Ymlaen yn parhau i gyfrannu at newid systemig ehangach—gan sicrhau bod lleisiau cymunedau Sipsiwn Roma a Theithwyr nid yn unig yn cael eu clywed, ond yn dylanwadu ar sut mae gwasanaethau yn cael eu datblygu a'u darparu.

"Mae dim ond gwybod bod rhywun yno yn gwneud gwahaniaeth mawr"



POBL IFANC SY’N FFOADURIAID AC YN CEISIO LLOCHES

Mae ein Rhaglen Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches yn parhau i ddarparu cymorth hanfodol i blant a phobl ifanc sy’n llywio rhai o’r amgylchiadau mwyaf cymhleth ac ansicr.

Yn ystod 2025-26, cynorthwyodd y rhaglen 97 o atgyfeiriadau eiriolaeth a gweithiodd gyda dros 200 o bobl ifanc trwy gymorth uniongyrchol, ochr yn ochr ag amrywiaeth eang o weithgarwch cyfranogiad ac ymgysylltu â phobl ifanc.

Roedd hyn yn cynnwys grwpiau ieuentid a oedd wedi’u hen sefydlu, â 437 o bobl ifanc yn mynychu grŵp ieuentid Caerdydd a 118 yn mynychu grŵp ieuentid Abertawe drwy’r flwyddyn. Mae’r grwpiau

hyn yn cynnwys amgylcheddau diogel a chefnogol lle gall pobl ifanc ddatblygu perthnasoedd, rhannu profiadau a datblygu ymdeimlad o berthyn.

Mae’r gwaith hwn yn hanfodol i sicrhau bod pobl ifanc sy’n chwilio am ddiogelwch nid yn unig yn cael eu cynorthwyo ar y pryd, ond yn cael y sylfeini i adeiladu dyfodol cadarnhaol ac annibynnol yng Nghymru.

“Ar ôl 2 fis, ymunais â grŵp Perthyn TGP Cymru... doeddwn i ddim yn gallu siarad Saesneg o gwbl ac mae pawb wedi fy helpu i.”

“Mae TGP... yn dangos sut y gallwch chi gael eich hawliau... byddwn yn ei argymhell.”

ATAL DIGARTREFEDD A CHEFNOGI ANNIBYNIAETH

Fe wnaeth ein gwasanaeth Tîm o Amgylch y Denantiaeth gynorthwyo 77 o bobl ifanc a oedd mewn perygl o ddigartrefedd, gan ddarparu 455 o sesiynau un i un a 413 o sesiynau llesiant.

Trwy gymorth parhaus yn seiliedig ar berthynas, llwyddodd pobl ifanc i fagu hyder, i reoli eu tenantiaethau ac i ddatblygu’r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer byw’n annibynnol, gan leihau’r perygl o ddigartrefedd a gwella llesiant cyffredinol.

“Dim ond eisiau dweud diolch am eich amser, eich cyngor a’ch cymorth. Rwy’n teimlo’n unig iawn yn hyn i gyd weithiau ac mae gwybod bod rhywun yno yn gwneud gwahaniaeth mawr.”

CYMORTH A DATBLYGIAD STAFF

Mae ein staff wrth wraidd popeth a wnawn. Mae ansawdd, cysondeb a thosturi ein cefnogaeth i blant, pobl ifanc a theuluoedd yn dibynnu ar weithlu hyderus, medrus sy’n cael eu cefnogi’n dda.

Yn ystod 2025–26, fe wnaethom barhau i gryfhau ein hagwedd at les staff a dysgu a datblygu, gan gydnabod bod effaith gynaliadwy yn dechrau gyda buddsoddi yn ein pobl.

LLES A DIWYLLIANT SEFYDLIADOL

Gwireddwyd ein strategaeth lles trwy galendr lles strwythuredig, ochr yn ochr â chyfleoedd pwrpasol fel ein diwrnod rhwydweithio sefydliadol a diwrnod lles. Roedd y rhain yn rhoi cyfle i greu cysylltiad, myfyrio a chael cefnogaeth gan gymheiriaid, gan helpu staff i reoli gofynion emosiynol eu rolau.

Mae lles wedi’i ymgorffori ar draws y sefydliad, wedi’i gefnogi gan adnoddau cymorth ar gyfer y gweithwyr a sesiynau dysgu rheolaidd sy’n canolbwyntio ar les.

Mae canfyddiadau ein harolwg staff blynyddol, adolygiadau ansawdd gofal a’r broses arfarnu yn parhau i fod yn hynod gadarnhaol, a staff yn tynnu sylw at gefnogaeth y sefydliad a thîm cryf, rheolaeth hygyrch ac ymdeimlad o bwrpas a rennir ar draws y sefydliad.



DYSGU A DATBLYGU

Mae Cronfa Ddata Hyfforddiant TGP Cymru 2025 - 2026 yn dangos graddfa ac ehangder y dysgu a wnaed ar draws y sefydliad.

Cafodd staff fynediad at ystod eang o gyfleoedd hyfforddi, gan adlewyrchu gofynion ymarfer craidd a blaenoriaethau sy'n dod i'r amlwg ledled Cymru. Ymhlith y meysydd datblygu allweddol roedd

- **Diogelu ac ymarfer yn seiliedig ar drawma**, gyda chyfranogiad eang mewn rhaglenni diogelu achrededig a dulliau sy'n seiliedig ar drawma i gryfhau ymarfer diogel ac effeithiol.
- **Iechyd meddwl a lles**, gan gynnwys hyfforddiant Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl, ymwybyddiaeth o hunanladdiad, a chysiau arbenigol sy'n cefnogi staff i ymateb i anghenion emosiynol cymhleth.
- **Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant**, gyda hyfforddiant ar niwroamrywiaeth, ymwybyddiaeth ddiwylliannol a chefnogi cymunedau ymylol, gan sicrhau bod ein gwasanaethau yn parhau i fod yn gynhwysol ac yn ymatebol.
- **Eiriolaeth ac ymarfer arbenigol**, gan gynnwys Deall Eiriolaeth, hyfforddiant cyfranogiad, cyfraith mewnfudo, a gweithio gyda phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal.
- **Rheoli a datblygu arweinyddiaeth**, gyda hyfforddiant strwythuredig ar gyfer rheolwyr tîm mewn goruchwyllo, arfarnu a rheoli pobl, gan gefnogi arweinyddiaeth gref a chyson ar draws gwasanaethau.
- **Iechyd a diogelwch, gan gynnwys Cymorth Cyntaf Brys yn y Gwaith** a hyfforddiant sy'n gysylltiedig â risg, gan sicrhau bod gan staff y gallu i ymateb yn ddiogel mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd.
- **Sgiliau digidol a sefydliadol**, gan gynnwys SharePoint, systemau cyflogres a hyfforddiant cynhyrchiant digidol, cryfhau seilwaith ac effeithlonrwydd sefydliadol.

Cyflwynwyd hyfforddiant trwy gymysgedd o sesiynau mewnol, dysgu gan gymheiriaid, cymwysterau achrededig, a darparwyr allanol, gan gynnwys sefydliadau cenedlaethol, awdurdodau lleol a chyrrff hyfforddi arbenigol.

DYSGU PARHAUS

Mae dysgu wedi'i ymgorffori mewn ymarfer bob dydd trwy oruchwyliaeth, cymorth gan gymheiriaid a rhannu gwybodaeth fewnol ar draws ein tîmau. Mae hyn yn sicrhau bod hyfforddiant yn trosi yn ymarfer gwell a chanlyniadau gwell i'r rhai hynny yr ydym yn eu cefnogi.

CYFRANOGIAD A DYLANWAD

Mae cyfranogiad yn dal i fod yn ganolog i bopeth yr ydym yn ei wneud. Ar draws pob gwasanaeth, rydym yn sicrhau bod plant, pobl ifanc a theuluoedd yn cymryd rhan weithredol yn y gwaith o lunio'r cymorth y maent yn ei dderbyn.

Eleni, fe wnaethom barhau i ddatblygu ein model ymddiriedolwyr ifanc, i gryfhau cyfleoedd cyfranogiad ac i ymwreiddio profiad bywyd yn y gwaith o ddylunio a darparu gwasanaethau.

Ochr yn ochr â hyn, rydym wedi parhau i ddylanwadu ar bolisi ac arferion ledled Cymru—gan weithio gyda Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a phartneriaid cenedlaethol i hyrwyddo eiriolaeth, ymyrraeth gynnar a'r pwysigrwydd o wrando ar y rhai â phrofiad bywyd.

EDRYCH YMLAEN

Mae'r angen am ein gwasanethau yn parhau i dyfu, ac felly hefyd y mae pwysigrwydd sicrhau bod gan blant, pobl ifanc a theuluoedd fynediad at y cymorth iawn ar yr adeg iawn.

Yn y flwyddyn i ddod, byddwn yn parhau i adeiladu ar lwyddiant gwasanaethau fel Lleisiau Ifanc, Pasbortau Cyfathrebu, Eiriolaeth Rhieni a'n gwaith gyda chyn-filwyr a theuluoedd. Byddwn hefyd yn parhau i chwilio am gyllid cynaliadwy, i gryfhau partneriaethau ac i sicrhau bod profiad bywyd yn parhau i fod yn ganolog i bopeth yr ydym yn ei wneud.

Mae ein pwyslais yn dal i fod yn eglur: i sicrhau bod pob plentyn, unigolyn ifanc a theulu yng Nghymru yn cael eu clywed, eu gwerthfawrogi ac yn gallu llunio'r penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau.

Byddwn yn parhau i gryfhau ein cynnig llesiant, buddsoddi mewn datblygu staff a chreu diwylliant cefnogol lle mae staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, yn hyderus ac wedi'u paratoi i gyflawni newid parhaol.

Diolch.

Rhiannon Beaumont-Walker

